

Asesiad Baich Anghymesur

Gwefan Cyngor Sir Fynwy

Mae'r asesiad yn ymwneud â:

- Dogfennau PDF ac Office hanesyddol a gyhoeddwyd cyn 23 Medi 2018.
- Niferoedd mawr o hen ddogfennau sy'n parhau i fod ar wefan y cyngor.
- Dogfennau a gedwir at ddibenion tryloywder, archifo, ymgynghori a chadw cofnodion.
- Nodwyd materion hygyrchedd

Nid oes gan rhai o'r hen ddogfennau:

- deitlau ar y dogfennau
- nid ydynt yn cynnwys tagiau hygyrchedd
- nid ydynt yn ôl trefn darllen resymegol
- mae'n bosibl nad ydynt yn gwbl gydnaws â thechnolegau cynorthwyol fel rhaglenni darllen sgrin

Manteision Adfer

Byddai adfer pob dogfen hanesyddol yn:

- gwella mynediad i'r rheini sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol
- gwella cydymffurfiaeth â WCAG 2.2 AA
- lleihau rhwystrau i gael mynediad at wybodaeth

Amcangyfrif o'r Baich

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw archif sylweddol o ddogfennau hanesyddol ar draws sawl maes gwasanaeth.

Byddai adolygu'r holl ddogfennau hanesyddol yn gofyn am:

- fynd ati i nodi'r hen gynnwys a'i archwilio
- ail-greu neu adfer dogfennau nad ydynt yn hygyrch
- profion sicrhau ansawdd
- adnoddau staff ar draws sawl adran

Byddai'r gost o ran amser staff ac adnoddau yn sylweddol, a byddai'n dargyfeirio adnoddau rhag y gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cyfredol a sicrhau bod cynnwys newydd yn hygyrch pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

Mesurau Amgen

Er mwyn lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr, bydd y cyngor yn:

- darparu dogfennau mewn fformatau eraill ar gais
- cyfieithu i'r Gymraeg
- blaenoriaethu'r gwaith i adfer y dogfennau sy'n ofynnol er mwyn cael mynediad at wasanaethau
- sicrhau bod dogfennau sydd newydd gael eu cyhoeddi yn bodloni safonau hygyrchedd lle bo hynny'n ymarferol
- adolygu dogfennau sy'n cael eu defnyddio'n sylweddol a'u disodli gyda fersiynau hygyrch lle bo hynny'n briodol

Penderfyniad

Ar ôl ystyried:

- graddfa'r cynnwys hanesyddol
- y goblygiadau o ran costau ac adnoddau
- pa mor aml y cyrchir llawer o ddogfennau sydd wedi'u harchifo
- y cymorth amgen sydd ar gael i breswylwyr

Mae Cyngor Sir Fynwy o'r farn bod adfer pob dogfen hanesyddol ar y wefan yn ôl-weithredol, yn faich anghymesur o dan Reoliad 7 Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Ffonau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau hanesyddol yn y Gymraeg.

Dyddiad Adolygu

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu erbyn mis Medi 2027, neu'n gynt os oes newid sylweddol i seilwaith y wefan, adnoddau, gofynion statudol neu brosesau rheoli dogfennau.